Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

COV 103
Ymateb gan: Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee

Inquiry into the impact of the Covid-19 outbreak on children and young people in Wales

COV 103
Response from: Office of the Police and Crime Commissioner for Dyfed Powys

---

Diolch am gysylltu gyda Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys parthed yr ymghynghoriad hwn ac ymddiheuriadau am yr oedi yn anfon ein hymateb.  Mae'r ebost wedi ei basio ymlaen ataf gan fod gennyf gyfrifoldeb dros maes polisi Plant a Phobl Ifanc, ac isod dyma rai nodiadau I chi sy'n rhoi manylion am weithgarwch ymgysylltu gyda phobl ifanc sydd wedi digwydd yma yn ddiweddar.

Mae'r Comisiynydd presennol, Dafydd Llywelyn yn angerddol am adeiladu perthynas gref â phobl ifanc, er mwyn deall yn well yr hyn sy'n arwain rhai pobl ifanc at droseddu ac anhrefn a sut y gellir eu helpu i wneud dewisiadau cadarnhaol mewn bywyd. Ers dod i'r swydd, mae wedi ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau amrywiol o bobl ifanc ledled ardal yr heddlu. Ym mis Rhagfyr 2018 sefydlwyd y Fforwm Ieuenctid cyntaf erioed ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Gelwir aelodau'r Fforwm Ieuenctid yn Llysgenhadon Ieuenctid ac maent yn cynrychioli barn eu cyfoedion yn eu grŵp / cymdeithas ieuenctid. Yn ogystal â chymryd rhan mewn trafodaethau yn ystod cyfarfodydd y Fforwm, mae Llysgenhadon Ieuenctid yn ymgynghori â phobl ifanc ar lawr gwlad ar ran y Comisiynydd, ar faterion amserol yr Heddlu a Throsedd, ac yn adrodd yn ôl ar eu barn.

Yn gynharach eleni comisiynwyd Hafan Cymru i weithio ochr yn ochr â'n Llysgenhadon Ieuenctid cyfredol i'n galluogi i nodi ffyrdd o dyfu'r fforwm yn y dyfodol i wneud y mwyaf o gyfleoedd I'r Comisiynydd ymgysylltu â phobl ifanc ledled ardal yr heddlu.

Fel rhan o'r gwaith a gomisiynwyd, trefnodd Hafan Cymru gyfres o weithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc ledled y rhanbarth, gan adeiladu perthnasoedd â phartneriaid ieuenctid, a chynhaliodd yr ymchwil hon ar ran y Comisiynydd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd wedi ymuno â ni ar y gwaith a gomisiynwyd, gan ein bod yn credu bod llawer o'r materion y mae pobl ifanc yn eu hwynebu y dyddiau hyn yn berthnasol I waith iechyd a phlismona.

Cafwyd trafodaeth gyda nifer o bartneriaid ar rhai o ganfyddiadau'r arolwg mewn Cynhadledd Ieuenctid a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020, ac yn fuan wedyn death y cyfnod clo / lockdown I rym o ganlyniad y pandemig COVID-19.

Ers hynny, rydym wedi bod yn cynnal cyfarfodydd Fforwm Ieuenctid ar Zoom.

- Yn y cyfarfod cyntaf, roedd cyfle I'r ieuenctid drafod eu teimladau am y lockdown, a beth oedd eu hymateb i'r sefyllfa. Cafwyd sgwrs hefyd ynglyn a chanfyddiadau'r arolwg gyda pobl ifanc Dyfed Powys, er mwyn cael eu barn ar rai o'r negeseuon amlwg sydd wedi dod allan o'r arolwg.
- Yn yr ail gyfarfod, trafodwyd posibiliadau o ddefnyddio mwy o'r llysgenhadon ieuenctid ar gyfer gwaith craffu y Comisiynydd a'I Swyddfa, ac o ganlyniad gwahoddwyd y Llysgenhadon I gyfarfod Bwrdd Atebolrwydd Plismona ym mis Mai, lle mae'r Comisiynydd yn dal y Prif Gwnstabl I gyfrif ar faterion Plismona.
- Cyfarfod Bwrdd Plismona – Ymunodd 6 o'r Llysgenhadon Ieuenctid yn y cyfarfod drwy Skype, lle roedd cyfle iddynt holi cwestiynau a lleisio eu barn ar faterion plismona, ar ran ieuenctid eraill y rhanbarth. Roedd mwyafrif y cwesitynau yn ymwneud a phlismona rheolau lockdown, a beth edd strategaeth yr heddlu o ran plsimona y newidiadau a oedd ar y gorwel I godi rhai o'r rheolau.
- Cafwyd cyfarfod arall o'r Llysgenhadon gyda'r Comisiynydd I drafod ymateb y Prif Gwnstabl a'I staff. Mae cyfarfod arall o'r Llysgenhadon wedi ei drefnu ar 11 o Fehefin, lle maent yn dod ag un person ifanc arall gyda nhw, sydd wedi dod I gyswllt gyda'r Heddlu yn y gorffennol, boed hynny yn ddioddefwr trosedd, neu yn droseddwr. Byddwn yn gofyn iddyn nhw I roi eu barn am y ffordd y cawsant eu trin. Y nod o gael adborth fel hyn yw y byddwn ni fel Swyddfa yn gallu cynorthwyo'r Heddlu, os fyddwn yn gweld bod angen, I wella eu gwasanaeth a/neu eu hymdriniaeth o bobl ifanc.